# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## CYNLLUN DIGIDOL CYNGOR GWYNEDD 2023–28

(CYFNOD 2024-2025)

GWYNEDDIGIDOL

Cefnogi pobol Gwynedd mewn byd digidol

*Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi* **cynnydd, heriau a chamau nesaf** *Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd ar draws ei brif feysydd blaenoriaeth.* Mae Cynllun Digidol y Cyngor yn rhaglen 5 mlynedd uchelgeisiol (2023–2028) gyda phum blaenoriaeth ddigidol craidd, wedi'u gweithredu drwy gyfres o brosiectau allweddol.

**Hyd y Cynllun**

**5 mlynedd**

2023-2028

**Blaenoriaethau**

**5**

Meysydd Digidol Allweddol

**Nifer y Prosiectau**

**29**

Prosiectau trawsnewid digidol

# Trosolwg

Mae Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023/2028 yn gosod gweledigaeth hirdymor i drawsnewid y Cyngor yn **Gyngor digidol** sy'n manteisio ar dechnoleg i wella bywydau trigolion a chryfhau gwasanaethau yn barhaus. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r cynnydd ers lansio'r cynllun, yn asesu i ba raddau mae'r **prosiectau blaenoriaeth** yn cyfrannu at y weledigaeth ehangach, ac yn nodi unrhyw newidiadau strategol angenrheidiol i'r dyfodol.

# 1. Crynodeb Gweledigaeth a Nodau

## Gweledigaeth Hirdymor

Creu Sir Ddigidol lle mae technoleg yn cael ei defnyddio'n ddoeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon ac effeithiol, gan roi'r cwsmer yn ganolog i bopeth a wneir. Mae'r Cyngor yn anelu at welliant parhaus yn y modd y gall dinasyddion gysylltu â gwasanaethau, defnyddio data fel sail i benderfyniadau, a chryfhau gwytnwch a diogelwch digidol yn y sefydliad.

## Prif Nodau Strategol

### Cwsmer-ganolbwyntio

Gwella'r profiad y dinasydd wrth ryngweithio â'r Cyngor trwy ddulliau digidol cynhwysol a dwyieithog.

### Gwasanaethau Effeithlon

Awtoimeiddio tasgau rheolaidd ac ailadroddus i wella effeithlonrwydd, gan ryddhau amser staff i ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth.

### Penderfyniadau Dysg

Defnyddio data ac adnoddau gwybodaeth integredig i lywio penderfyniadau doeth ar draws y Cyngor.

### Gweithlu Digidol

Meithrin sgiliau digidol pob aelod o staff a hyrwyddo diwylliant o arloesi digidol yn y gweithle.

### Seilwaith Gwydn

Buddsoddi mewn isadeiledd TG cadarn a mesurau seiberddiogelwch i warchod gwasanaethau'r Cyngor rhag aflonyddwch.

Yn gryno, mae'r weledigaeth a'r nodau uchod yn sefydlu fframwaith ar gyfer sut y bydd Cyngor Gwynedd yn datblygu'n ddigidol. Maent yn uno yn y bwriad i **arloesi'n ddigidol** er mwyn gwella safon byw trigolion Gwynedd a chynnal gwasanaethau o'r radd flaenaf yn wyneb heriau cyfredol a'r dyfodol.

# 2. Trefniadau Llywodraethiant

Mabwysiadwyd y Cynllun Digidol gan Cabinet Cyngor Gwynedd ar Dachwedd 7fed 2023

## Strwythur Llywodraethol

Mae **Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor** (dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol) yn darparu arweiniad strategol i'r Cynllun Digidol, gyda chefnogaeth *Aelod Cabinet, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Digidol), Rheolwr Systemau Isadeiledd a Cadeiryddion* yr is-grŵpiau digidol ac yn atebol i'r *Tîm Rheoli Corfforaethol*.

Sefydlwyd pump is-grŵp digidol i gynnwys cynrychiolwyr o bob gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn cyfrannu ac yn ymrwymo i'r weledigaeth ddigidol:

**Is-grŵp Data**
Cyfrifoldeb am faes blaenoriaeth Gwybodaeth a Data

**Is-grŵp Gweinyddiaeth**
Cyfrifoldeb am faes blaenoriaeth Gweinyddiaeth a Systemau Busnes

**Is-grŵp Gweithlu**
Cyfrifoldeb am faes blaenoriaeth Gweithlu

**Is-grŵp Technegol**
Cyfrifoldeb am faes blaenoriaeth Gwytnwch

**Is-grŵp Cyswllt Cwsmer**
Cyfrifoldeb am faes blaenoriaeth Cyswllt Cwsmer

## Newidiadau i Lywodraethiant

Mae mân newidiadau wedi eu cyflwyno i'r drefn llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Bellach mae ffocws uwch ar drefniadau Seibr a grŵp penodol wedi ei sefydlu ar gyfer ymdrin a'r pwnc cynhennus hwn dan gadeiryddiaeth y *Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Digidol)*, â'r grŵp yn atebol i'r *Grŵp Strategol Cynllunio Argyfwng a'r Bwrdd Trawsnewid Digidol*. Daethpwyd a'r is-grŵp Technegol i ben fel rhan o'r trefniadau hyn.

Mae'r *Adran Cyllid a TG* yn adrodd ar gynnydd fel rhan o drefn perfformiad corfforaethol, a bydd y Bwrdd Digidol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd.

# 3. Effaith y Cynllun Digidol

Mae'r Cynllun Digidol wedi cael effaith sylweddol ar draws sawl maes allweddol:

## Gwella Gwasanaethau i Drigolion

- Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol wedi arwain at wasanaethau mwy effeithlon, cywir a hygyrch i drigolion Gwynedd.
- Mae prosiectau megis uwchraddio systemau ffôn, ail-ddylunio'r wefan gorfforaethol, a datblygu apGwynedd yn gwneud gwasanaethau'r Cyngor yn fwy cyfleus ac yn gwella profiad y cwsmer.

## Cryfhau'r Gweithlu

- Mae'r cynllun wedi galluogi'r gweithlu i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, megis gweithio hybrid a defnyddio technolegau newydd.
- Mae buddsoddi mewn hyfforddiant digidol a chyflwyno cyfrifon digidol i bob swyddog yn sicrhau bod staff yn barod i ymateb i heriau'r dyfodol ac yn gallu darparu gwasanaethau o safon uchel.

## Gwelliannau i Isadeiledd Digidol

- Mae uwchraddio llinellau analog, gwella darpariaeth darlledu, a chryfhau amddiffynfeydd seiber wedi gwneud systemau'r Cyngor yn fwy dibynadwy a diogel.
- Mae'r gwaith o wella cysylltedd a chynhwysiant digidol yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol.

## Arloesi ac Awtomeiddio

- Mae cyflwyno deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio prosesau wedi lleihau'r baich gweinyddol ac wedi rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar wasanaethau craidd.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio technolegau newydd i wella casglu a defnyddio data, gan alluogi penderfyniadau mwy gwybodus.

## Cydweithio a Phartneriaethau

- Mae'r Cynllun wedi cryfhau cydweithio â phartneriaid lleol a rhanbarthol, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau cyhoeddus a chwmnïau technoleg.
- Mae'r cydweithio hwn wedi galluogi rhannu adnoddau, arbenigedd a datblygu atebion arloesol ar raddfa ehangach.

## Gwasanaethau Cynhwysol a Dwyieithog

- Mae'r Cynllun yn sicrhau bod gwasanaethau digidol y Cyngor yn gynhwysol ac ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan adlewyrchu anghenion cymuned Gwynedd.

# 4. Cynnydd Prosiectau Blaenoriaeth

## Trosolwg o Gynnydd y Prosiectau

Mae'r Cynllun Digidol yn cynnwys sawl prosiect penodol o fewn y pum blaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn:

**20**

**WEDI CYCHWYN**

20 prosiect (allan o 29) wedi eu cwblhau neu yn arddangos cynnydd sylweddol ac yn cyrraedd eu hamcanion.




**7**

**HEB EU CYCHWYN**

7 prosiect heb eu cychwyn, ond am dderbyn sylw yn ystod cyfnod y Cynllun.

**2**

**DIM I'W DATBLYGU YM MHELLACH**

2 brosiect dim i'w datblygu ym mhellach oherwydd diffyg cefnogaeth i'r cynlluniau.

# 5. Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun

## Newidiadau a Chyfeiriad Strategol

Yn unol â'r bwriad o adolygu'r Cynllun yn flynyddol, mae'n bwysig nodi unrhyw **ddiwygio i flaenoriaethau** neu **ychwanegiadau** a wnaed yn ystod y flwyddyn:

| Cyfeirnod | Disgrifiad | Derbyn Cefnogaeth Arianno | Cynnydd (2024/25) | Disgwyledig (2025/26) |
|---|---|---|---|---|
| GD1 | Adnabod ein data | Na | Cychwyn | Parhau |
| GD2 | Siarter data | Na | Cychwyn | Parhau |
| GD3 | Creu warws data (wGwynedd) | Na | Heb ddechrau | Heb ddechrau |
| GD4 | Llwyfan adrodd ar ddata | Ydy | Cychwyn | Cwblhau |
| GD5 | Hyfforddiant llythrennedd data | Na | Heb ddechrau | Heb ddechrau |
| GD6 | Adrodd ar berfformiad | Na | Cychwyn | Parhau |
| GSB1 | Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaethol a rheolaidd | Na | Cychwyn | Parhau |
| GSB2 | Digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu | Na | Heb ddechrau | Cychwyn |
| GSB3 | Lleihau a gwella ein defnydd o bapur | Na | Cychwyn | Parhau |
| GSB4 | Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir | Na | Heb ddechrau | Heb ddechrau |
| GSB5 | Adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad | Ydy | Cychwyn | Parhau |
| GSB6 | Rhyngrwyd y Pethau | Na | Cychwyn | Cwblhau |
| GSB7 | Gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365 | Ydy | Cychwyn | Parhau |
| GSB8 | Hwyluso cydweithio â phartneriaid | Na | Cychwyn | Parhaol |
| GSB9 | Cysylltedd a cynhwysiant digidol | Na | Cychwyn | Parhaol |
| GWEI1 | Cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog (adroddiad ac achos busnes i gychwyn) | Na | Cychwyn | Parhau |
| GWEI2 | Cefnogi gweledigaeth y rhaglen "gweithio i'r dyfodol" | Na | Cychwyn | Parhaol |
| GWEI3 | Hyfforddiant, sgiliau a meddwl yn ddigidol | Na | Heb ddechrau | Heb ddechrau |
| GWEI4 | Hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol | Ydy | Cychwyn | Parhaol |
| GWYD1 | Uwchraddio llinellau analog i digidol | Na | Cychwyn | Cwblhau |
| GWYD2 | Parhad gwasanaeth | Ydy | Cychwyn | Cwblhau |
| GWYD3 | Uwchraddio darpariaeth darlledu yn Siambrau'r Cyngor | Ydy | Cychwyn | Cwblhau |
| CC1 | Ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a cyflwyno ceisiadau am wasanaeth | Ydy | Heb ddechrau | Cychwyn |
| CC2 | Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor | Ydy | Cychwyn | Cwblhau |
| CC3 | Ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor | Ydy | Cychwyn | Cwblhau |
| CC4 | Datblygu a hyrwyddo apGwynedd | Na | Heb ddechrau | Cychwyn |
| CC5 | Ciosg fideo Siop Gwynedd | Na | Stop | Stop |
| CC6 | Peiriannau talu am wasanaeth | Na | Stop | Stop |
| YSG1 | Cefnogi a datblygu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd | Cefnogaeth Amgen | Cwblhau | Ail Ymweld |

## Addasiadau i'r Cynllun

Mae dau brosiect wedi eu hadnabod yn maes blaenoriaeth Cyswllt Cwsmer na fydd yn cael sylw yn eu ffurf gwreiddiol.  Mae manylion am y rhain yn cael ei nodi isod.

## Cwmpas a Chyllid

Blaenoriaethwyd rhai prosiectau dros eraill ar sail y gefnogaeth ariannol a ddyfarnwyd iddynt. Derbyniodd naw prosiect gefnogaeth ariannol, gyda wyth o'r prosiectau hyn ar waith erbyn 2024/25.  Bydd pob un o'r prosiectau a gefnogwyd yn ariannol ar waith erbyn 2025/26, chwech wedi eu cwblhau, dau yn parhau ac un yn trosglwyddo i fod yn ymdrech barhaol.

## Blaenoriaethu oddi fewn yr adnodd cyfredol

Yn ychwanegol i flaenoriaethu prosiectau gyda cefnogaeth ariannol newydd, dyfarnwyd bod angen blaenoriaethu rhai prosiectau oddi fewn ein adnoddau cyfredol.  Rhoddwyd unarddeg prosiect o'r math yma ar waith yn ystod 2024/25 a bydd dau wedi eu cwblhau yn llawn yn ystod 2025/26, gwaith yn parhau ar chwech a tri prosiect yn cael eu ymgorffori fel ymdrechion parhaol.

## Nid yn faes blaenoriaeth

Mae chwech prosiect na'i dyfarnodd yn faes blaenoriaeth yn parhau heb eu dechrau.  Bydd dau yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2025/26 gan bod dibyniaeth ac/neu gorgyffwrdd a phrosiectau eraill sydd ar waith neu'n cwblhau.  Bydd y pedwar arall yn parhau heb ddechrau oni bai eu bod yn cael eu ail-flaenoriaethau.

## Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd

Mae cwmpas Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd wedi cwblhau.  Gwasanaeth cefnogi newydd wedi ei sefydlu ar gyfer yr ysgolion a'r weledigaeth o gyflenwi gliniadur i bob disgybl Blwyddyn 2 hyd Blwyddyn 11 wedi ei wireddu.  Bydd y gwaith o sefydlu strategaeth ddigidol newydd i'r ysgolion yn mynd ar waith yn ystod 2025/26.

## Gwersi a Argymhellion:

### Gwersi Allweddol

- Ymgysylltu'n eang tra bod y Cynllun yn cael ei lunio wedi bod yn fuddiol ddyrchafu digidol i sylw cynulleidfa ehangach
- Strwythur llywodraethu cadarn a traws-adrannol wedi bod yn allweddol i ddarparu Cynllun sy'n canolbwyntio ar ein gwasanaethau yn hytrach na'r dechnoleg.

### Argymhellion

- Angen edrych ar ffyrdd amgen i flaenoriaethu prosiectau a rheoli disgwyliadau i'r dyfodol gan gynnwys trefniadau cyllido
- Mae'r adroddiad blynyddol yn gam pwysig i gadw'r agenda ddigidol yn fyw, ond mae angen sefydlu trefniadau ymgysylltu parhaol ar gyfer cadw'r Cynllun yn gyfredol i gyfarch newidiadau i wasanaethau'r Cyngor a'r newid parhaus mewn technoleg digidol.

# 6. Gwybodaeth a Data

## Ffocws y Blaenoriaeth

*"Defnyddio data a gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwell a dysg."*. Mae hyn yn golygu **gwella mynediad at wybodaeth** i staff a chwsmeriaid, **gwella ansawdd data**, a sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu llywio gan ddata dibynadwy.

### GD1

#### Adnabod ein data

Rydym wedi adolygu a diweddaru'r wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'r holl systemau sydd gan y Cyngor (dros 300 ohonynt) er mwyn creu un rhestr safonol ohonynt. Bydd cael un rhestr gyflawn, gyfredol yn helpu i wneud nifer o weithgareddau yn y maes yma yn fwy effeithlon – ond un defnydd pwysig o'r gwaith yma yw darparu pwynt cychwyn ar gyfer cysoni a rhesymoli'r gwahanol ddata mae'r Cyngor yn ei ddal yn ei systemau, a gallu integreiddio data gwahanol systemau yn well gyda'i gilydd.

**Statws**
Ar waith (gwaith i barhau hyd chwarter 4 2025/26)

### GD2

#### Siarter data

Rydym wedi llunio Siarter Data fydd yn sefydlu dull corfforaethol clir ar gyfer rheoli a defnyddio data'n gywir, yn gyfrifol ac yn gyson. Mae'r Siarter yn cynnwys polisïau, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer holl staff y Cyngor wrth iddynt ymwneud â data, a bydd modd addasu ac ychwanegu at gynnwys y Siarter yn y dyfodol wrth i anghenion newydd ddod i'r amlwg.

Y cam nesaf yw pecynnu a hyrwyddo'r Siarter mewn modd fydd yn amlygu perthnasedd y Siarter i staff y Cyngor – mae gwaith ar hyn yn digwydd ar gyfer cyhoeddi a lansio'r Siarter yn fuan yn 2026.

**Statws**
Ar waith (lansio'r Siarter yn chwarter 4 2025/26)

## GD3

### Creu warws data

Mae cynlluniau GD1 a GD2 uchod yn mynd i'r afael â chyfran helaeth o'r materion y byddai warws data yn eu datrys (anghysondebau mewn data, diffyg cywirdeb data, dyblygu) ac felly rydym wedi blaenoriaethu'r rheiny yn y lle cyntaf.

Tra ei bod yn bosibl y gallai warws data wella'r sefyllfa ymhellach, byddai'n debygol o fod yn gynllun maith fyddai angen cymorth allanol i'w wireddu.

**Statws**
Heb ddechrau (adolygu'r sefyllfa yn 2026/27 yn dilyn cwblhau datblygiadau eraill yn y maes)

## GD4

### Llwyfan adrodd ar ddata

Yn dilyn ymchwil i'r gwahanol lwyfannau sydd ar gael ar gyfer dadansoddi a chyflwyno data, bydd Siarter Data y Cyngor yn cydnabod bod yna wahanol lwyfannau ar gael all fod yn addas i wahanol ddefnydd, ond yn nodi bod pecyn Microsoft Power BI â nifer o fanteision ac yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar draws y Cyngor ac mai hwnnw fydd y tîm canolog yn ei ddefnyddio yn gyffredinol.

Nodwyd o ran y llwyfan Power BI yr angen i sicrhau bod y Cyngor yn cael y defnydd gorau ohono; ac o ganlyniad rydym wedi ymchwilio i'r sefyllfa trwyddedu ac i'r posibiliadau o ran cyhoeddi adroddiadau rhyngweithiol ar wefan y Cyngor. Hefyd fel rhan o'r Siarter Data bydd canllawiau i staff sy'n llunio a chyhoeddi adroddiadau Power BI er mwyn sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio mewn modd cyson a diogel.

**Statws**
Ar waith (bydd wedi cwblhau yn ch.4 2025/26 ar ôl cyhoeddi'r canllawiau ac wedi cychwyn cyhoeddi adroddiadau Power BI ar y wefan)

## GD5

### Hyfforddiant llythrennedd data

Bydd hyn yn cael sylw fel rhan o'r rhaglenni hyfforddi i ddatblygu'r gweithlu yn y maes Digidol.

**Statws**
Heb ddechrau (targedu ar gyfer 2026/27)

## GD6

### Adrodd ar berfformiad

Rydym wedi ymchwilio i'r dulliau amrywiol sy'n bodoli o fewn y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfer casglu ac adrodd gwybodaeth perfformiad; mae hyn wedi cadarnhau bod yna botensial gwella o ran cael mwy o gysondeb, llai o ddyblygu a gwell mynediad at wybodaeth wrth gyhoeddi adroddiadau perfformiad.

Bydd rhai o'r datblygiadau sydd ar droed gennym eisoes (o ran gwella cywirdeb data, hyrwyddo'r llwyfan adrodd Power BI, a gallu cyhoeddi adroddiadau rhyngweithiol ar wefannau) yn helpu i fynd i'r afael â thipyn o'r materion hyn. Fodd bynnag mae angen edrych a oes camau pellach y gallwn eu cymryd i osgoi dyblygu a chael mwy gysondeb yn y trefniadau.

**Statws**
Ar waith (gwaith pellach i'w gwblhau yn 2026/27)

# 7. Gweinyddiaeth a Systemau Busnes

## Ffocws y Blaenoriaeth

*“Hwyluso ac awtomeiddio gwaith sy’n rheolaidd ac ailadroddus, a defnyddio technoleg i wella’n gwasanaethau a’r prosesau i’w cynnal.”.* Mae hyn yn cynnwys moderneiddio prosesau mewnol y Cyngor drwy dechnoleg, er mwyn cynyddu **cynhyrchiant** a ***chywirdeb*** wrth gyflawni tasgau gweinyddol bob dydd.

## GSB1

### Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial

Ymylol oedd y gefnogaeth i’r prosiect hwn pan gyflwynwyd y Cynllun Digidol a ni ddyfarnwyd unrhyw gefnogaeth ariannol i’w ddatblygu ym mhellach. Fodd bynnag, mae ambell brosiect Deallusrwydd Artiffisial wedi ei ymgorffori i raglenni gwaith y Gwasanaeth Digidol gan gynnwys prosiectau i wella canlyniadau chwilio am gynnwys ar y wefan gorfforaethol a phrosiectau i ddarllen a chategorïo e-byst a chynnwys i wella gwybodaeth a blaenoriaethu tasgau ar gyfer y Gwasanaeth Trethiant a Rheolaeth Ysgolion.

Mae cydnabyddiaeth bod angen cefnogaeth bellach i’r prosiect hwn a mae arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i brysuro taith y Cyngor ar y llwybr hwn. Bydd swyddog dynodedig yn cael ei gyflwyno i adnabod meysydd a gweithgareddau ble gall y dechnoleg hwn wneud gwahaniaeth sylweddol yn ystod 2025/26.

**Statws**
Ar waith (swyddog penodedig i’w benodi y chwarter 3 2025/26)

## GSB2

### Digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu

Mae hyn yn ymgyrch i wella ein trefniadau o amgylch ein systemau ariannol gan fabwysiadu trefniadau a phrosesau modern, lleihau ein ymdrechion gweinyddol, cyflymu’n prosesau a gwella’n data. Mae’r prosiect hwn wedi ei oedi tra bod prosiect **GSB5: Adolygiad o systemau rheoli’r sefydliad** yn mynd rhagddo a bydd ail gymal y prosiect yn cynnwys yr agweddau o ddiwygio ein trefniadau anfonebu.

**Statws**
Heb ddechrau (prosiect GSB5 yn goddiweddi anghenion y prosiect hwn)

## GSB3

### Lleihau a gwella ein defnydd o bapur

Mae'r Cynllun Digidol yn cydnabod na ellir gwaredu ein defnydd o bapur yn llwyr, ond mae lle i gynyddu ein darpariaeth digidol gan leihau ein dibyniaeth ar brosesau hanesyddol papur. Mae ambell brosiect peilot wedi ei gychwyn i allanoli i resymoli'r broses o gynnal darpariaeth papur, ond mae angen mynd a hyn ym mhellach gan gychwyn ar y prosiect o leihau ein defnydd hefyd.

**Statws**
Ar waith (ambell prosiect peilot wedi ei brofi)

## GSB4

### Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir

Mae ymhell dros 300 system mewn defnydd yng Nghyngor Gwynedd a chost pherchnogaeth ynghlwm a phob un. Cyfyd hefyd sefyllfa ble mae dyblygu ffwythiannau a'r data a gesglir gan arwain at sawl fersiwn o'r gwirionedd. Nid oes adnodd wedi ei adnabod i wireddu'r dasg hon a bydd cais am adnodd yn cael ei gyflwyno ar gyfer prysuro'r dasg yn 2027/28.

**Statws**
Heb ddechrau (targedu ar gyfer 2027/28)

## GSB5

### Adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad

Un arall o flaenoriaethau pennaf y Cynllun, gyda'r blaenoriaeth wedi ei ddyrchafu yn dilyn cyhoeddiad bod cefnogaeth system gyflogau cyfredol y Cyngor yn dirwyn i ben ar ddiwedd 2026. Mae sawl gweithgaredd wedi mynd rhagddo, gan gynnwys adolygiad gan arbenigwyr yn y maes. Mae'r prosiect ar drywydd iach a disgwylir i'r camau caffael gael eu cwblhau ganol chwarter 3 2025/2026 a'r gwaith o fewnosod y system newydd gychwyn cyn diwedd y chwarter.

Bydd ail gymal y prosiect yn camu ymlaen i edrych ar ein systemau ariannol, unai drwy uwchraddio ein darpariaeth bresennol neu drwy gaffael datrysiad amgen.

**Statws**
Ar waith (dewis darparwr a cychwyn mewnosod chwarter 3 2025/26)

## GSB6

### Rhyngrwyd y Pethau

Mae hwn yn faes sy'n datblygu'n gyflym a Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno sawl darpariaeth gan ddefnyddio'r dechnoleg yma'n barod, y rhan helaethaf yn perthnasu i faterion llifogydd. Fodd bynnag, nid oes arbenigedd dynodedig i ganolbwyntio ar y math hwn o ddarpariaeth a bydd prosiect tymor byr yn cael ei gyflawni yn ystod Chwarter 3 2025/26 i gynhyrchu cyfres o achosion defnydd yn y meysydd amgylcheddol a gofal mewn paratoad i gyflwyno achos busnes llawn i brif-ffrydio'r ddarpariaeth i gryfhau ein gwasanaethau.

**Statws**

Ar waith (ambell brosiect wedi ei gwblhau a bydd cais am arian o'r gronfa ffyniant i greu leiafswm 6 achos defnydd yn cael ei wneud yn 2025/26)

## GSB7

### Gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365

Dyma yw'r llwyfan a ddefnyddir gan bob swyddog sy'n meddu ar gyfrifiadur yn y Cyngor, a'r ddarpariaeth yn ymestyn ym mhellach i Aelodau Etholedig ac ambell weithiwr maes. Mae'n cynnwys system weithredu Windows, ein darpariaeth e-bost, cronfa cynnwys iGwynedd a Sharepoint a'r pecynnau meddalwedd safonol Microsoft Office (megis Word, Excel, PowerPoint a mwy). Mae'r llwyfan yn esblygu'n barhaus a'r effaith o gyflwyno darpariaeth gyda'r gallu o fod yn bellgyrhaeddol o ran cywirdeb a diogelwch gwybodaeth.

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth wedi ei gryfhau drwy ychwanegu swyddog am gyfnod o ddwy flynedd i gydweithio gyda'r Gwasanaeth TG i adnabod yr ardrawiad o gyflwyno pecynnau neu addasiadau i'r llwyfan Microsoft365 fel bod modd defnyddio mwy o ffwythiannau'r llwyfan mewn modd diogel. Yn ychwanegol i hyn ac ar gyfer hwyluso'r gefnogaeth a darpariaeth technegol, cytundebwyd gyd cwmni Microsoft ar gyfer cefnogaeth ehangach i'r llwyfan.

**Statws**

Ar waith (ambell brosiect wedi ei gwblhau a bydd cais am arian o'r gronfa ffyniant i greu leiafswm 6 achos defnydd yn cael ei wneud yn 2025/26)

## GSB8

### Hwyluso cydweithio â phartneriaid

Mae sawl prosiect yn codi ble mae cynnig ac/neu gofyn i Gyngor Gwynedd weithredu mewn partneriaeth cenedlaethol neu ranbarthol. Llwyfan HWB ar gyfer yr ysgolion, prosiect Cysylltu Gofal ar gyfer ein system gofal, Bwrdd Digidol Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer cysylltedd a chynhwysiad digidol a nifer o brosiectau llai gan Awdurdod Llywodraeth Leol Cymru, Canolfan Ddigidol y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae cynrychiolaeth i bob un o'r rhain a'r prosiectau megis HWB a Cysylltu Gofal yn esiamplau gwych o gydweithio.

**Statws**
Ar waith (mae hwn yn ymdrech barhaol)

## GSB9

### Cysylltedd a chynhwysiant digidol

Mae rhaglen ddigidol Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu sawl prosiect i wella cysylltedd band eang, signalau ffonau symudol a datblygiadau isadeiledd cysylltiadau newydd. Mae sawl swyddog o Gyngor Gwynedd yn cefnogi UGC ar y prosiectau hyn, gan gynnwys ymrwymiad i gynnig eiddo'r Cyngor, boed yn adeiladau neu yn ddodrefn stryd i hwyluso gwelliannau i'r isadeiledd cysylltedd.

**Statws**
Ar waith (mae hwn yn ymdrech barhaol)

# 8. Gweithlu

## Ffocws y Blaenoriaeth

*“Datblygu gweithlu effeithiol a chynhyrchiol, ble mae cymhwysedd digidol yn naturiol i bawb.”.*
Mae’r nod hwn yn sicrhau fod pob aelod o staff – swyddfa a’r rheng flaen – yn gallu manteisio ar dechnoleg ac yn meddu ar y sgiliau digidol priodol i wneud eu swydd yn effeithiol.

### GWEI1

#### Cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog

Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud ar y prosiect hwn i adnabod sut fath o bresenoldeb digidol sydd ei angen ac ar ba garfannau o’r gweithlu. Bydd achos busnes yn cael ei baratoi ar gyfer ei gyflwyno i weithdrefn bidiau’r Cyngor yn 2025/26 ar gyfer cefnogaeth i ymestyn y ddarpariaeth yn ystod 2026/27.

**Statws**
Ar waith (bid i’w gyflwyno yn 2025/26 ar gyfer ariannu yn 2026/27)

### GWEI2

#### Cefnogi gweledigaeth y rhaglen “Gweithio i’r dyfodol”

Mae’n debyg bod y “dyfodol” yn yr achos yma yn cyfeirio at normaleiddio y ffordd newydd o weithio wrth atgyfodi o’r cyfnod wedi Covid. Yn wir, mi roedd ein gallu i gynnal gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn yn drawsnewidiol a mae cefnogaeth barhaus yn ei le i barhau i gefnogi’r Cyngor i gefnogi hyblygrwydd yn ffyrdd da ni’n gweithio, boed hynny drwy gynnal a datblygu leoliadau hybrid, darparu systemau llogi desgiau neu barhau i ddatblygu ein gallu i weithio o bell.

**Statws**
Ar waith (mae hwn yn ymdrech barhaol)

## GWEI3

### Hyfforddiant sgiliau a meddwl yn ddigidol

Bwriedir datblygu rhaglenni hyfforddi i ddatblygu'r gweithlu i adnabod cyfleon i wella ein gwasanaethau a'n gweinyddiaeth drwy ddefnydd technoleg. Cyflyrir yr hyfforddiant at ddefnyddio technoleg sydd yn nwylo'r gweithlu yn barod ac iddynt fod yn oleuedig i ddatrysiadau arloesol eraill y gellir eu defnyddio. Mae hwn yn gam amhrisiadwy i gyflyru ein gweithlu i ddatblygu a holi'n gyson – "*sut allai wneud hyn yn well?*".

**Statws**
Heb ddechrau (targedu ar gyfer 2026/2027)

## GWEI4

### Hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol

Y weledigaeth yn y man hyn oedd creu cyfleon i feithrin talent digidol ac i arddangos Cyngor Gwynedd fel cyflogwr sy'n flaengar fel cyflogwr digidol. Mae cyfanswm o 9 prentis gradd digidol wedi eu cyflwyno hyd yma, 6 yn y maes datblygu meddalwedd, 2 yng ngwyddor data ac un yn y maes seibr. Er y llwyddiant hyn, aflwyddiannus fu ein ymgyrchoedd i ddenu Arweinydd Yfory i'r maes Trawsnewid Digidol, ond byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu adnoddau digidol drwy ein rhaglenni hyfforddai a phrentisiaid i'r dyfodol.

**Statws**
Ar waith (mae hwn yn ymdrech barhaol)

# 9. Gwydnwch

## Ffocws y Flaenoriaeth

*"Datblygu isadeiledd digidol cadarn er mwyn gwarchod gwasanaethau'r Cyngor."*. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau fod systemau digidol y Cyngor yn ddibynadwy a diogel, gyda mesurau ar waith i atal a thrwsio aflonyddwch – boed yn achos trychineb naturiol neu fygythiad seiber.

### GWYD1

#### Uwchraddio llinellau analog i ddigidol

Bydd rhwydweithiau cyswllt analog, megis llinellau ffôn a chysylltiadau band-eang sylfaenol yn cael eu diffodd erbyn diwedd Ionawr 2027. Mae hwn yn ymgyrch gan Llywodraeth y DU ac yn effeithio'r boblogaeth gyfan.

Mae'r Cyngor yn meddu ar sawl cyswllt o'r math hwn, rhai yn hanesyddol a bellach ddim mewn defnydd, gyda eraill yn angenrheidiol ar gyfer parhad rhai gwasanaethau. Daeth cymal cyntaf y prosiect i ben ar ddiwedd 2024, gyda cofrestr o bob cyswllt yn cael ei baratoi. Mae sawl cyswllt wedi eu terfynu yn barod, gyda technoleg amgen yn cael ei sefydlu ar gyfer y cysylltiadau hynny sy'n parhau i gefnogi gwasanaethau. Mae bwriad dod ag ail gymal y prosiect i ben erbyn diwedd 2025/26 a'r Adrannau wedi derbyn cofrestr o'u cysylltiadau sydd dal mewn defnydd i wneud trefniadau amgen.

**Statws**
Ar waith (cwblhau erbyn diwedd 2025/26)

### GWYD2

#### Parhad gwasanaeth

Mae unrhyw sefydliad sy'n darparu gwasanaethau digidol yn destun i ymosodiadau seibr a mae'n ddyletswydd ar y sefydliad i gymryd y camau angenrheidiol i warchod rhag yr ymosodiadau a meddu ar y gallu i atgyfodi o sefyllfa ble bo ymosodiad wedi tramgwyddo amddiffynfeydd y sefydliad. Yn unol a'r camau a amlinellwyd yn y Cynllun, mae'r Cyngor wedi ychwanegu adnoddau at eu tîm cadernid seibr a wedi mabwysiadu trefn llywodraethu penodol ar gyfer ein ymgyrchoedd seibr. Cyflwynwyd system copïau wrth gefn a meddalwedd gwrth-firws newydd i gryfhau ein amddiffynfeydd a'n gallu i adfer pe byddai ymosodiad.

**Statws**
Cwblhawyd ond mae'r ymdrech yn barhaus

## GWYD3

### Uwchraddio darpariaeth darlledu yn Siambrau'r Cyngor

Dyrannwyd gefnogaeth ariannol i wella'r ddarpariaeth gweledol yn Siambr Hywel Dda, ond mae gwireddu'r prosiect yn llawn a sefydlu darpariaeth gyflawn a chyfredol angen cefnogaeth ariannol pellach.  Bydd gwelliannau i Hywel Dda yn cael eu cyflwyno diwedd Chwarter 2 2025/26 a bydd cais am arian pellach i ddiwygio'r cyfan yn y ddwy siambr yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfnod bidiau 2025/26 ar gyfer 2026/27.

**Statws**
Ar waith (cymal cyntaf i'w gwblhau chwarter 2 2025/26, parhad yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol pellach)

# 10. Cyswllt Cwsmer

## Ffocws

"*Sicrhau gwasanaeth sy'n gynhwysol a dwyieithog, sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf ac yn rhedeg mewn lleoliad ac ar amser sy'n gyfleus i'r cwsmer*.". Mae hwn yn nod i ganolbwyntio ar gryfhau ryngweithiau ein defnyddwyr gwasanaeth a gwasanaethau'r Cyngor.

### CC1

### Ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a cyflwyno ceisiadau am wasanaeth

Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad pellach o brosiect CC2, gan ddatblygu ac ychwanegu sianelai cyswllt digidol pellach i'r Cyngor. Bydd yn cyflwyno'r gallu i drigolion ddefnyddio dulliau cysylltu megis WhatsApp, neges destun rhyngweithiol a botiaid sgwrs a botiaid sgwrs clyfar, yn ogystal a datblygu cyfathrebu drwy e-bost ym mhellach. Bydd y llwyfan hon yn cael ei integreiddio gyda'r llwyfan ffôn, gyda sawl elfen ohono'n cael ei gefnogi gan dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial. Mae disgwyl i'r gwaith gychwyn ar hwn yn ystod chwarter olaf 2025/2026.

**Statws**
Heb ddechrau (dibyniaeth ar gyflawni CC2 yn llawn)

### CC2

### Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor

Mae'r prosiect yma yn un o flaenoriaethau pennaf y Cynllun a wedi ymarferiad caffael, fe benodwyd Cisco fel darparwr ar gyfer ein system newydd. Mae Cisco yn un o brif gwmnïau digidol y byd a mae perthynas agos a ffrwythlon wedi datblygu drwy'r prosiect, gan gynnwys cyhoeddi cefnogaeth a darpariaeth i'r Gymraeg ar eu llwyfan teleffoni Webex.

Mae sawl rhif ffôn wedi trosglwyddo i'r ddarpariaeth newydd, gan gynnwys y Ganolfan Gyswllt a bydd y gwaith trosglwyddo yn parhau hyd ganol 2025/26. Bydd newidiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r ddarpariaeth yn ystod 2025/26 a hynny drwy law adnodd ychwanegol a gyflwynwyd i siapio'r ddarpariaeth i yrru gwelliannau yn ein perfformiad i ateb y ffôn a hynny y tu hwnt i'r ddarpariaeth sylfaenol o integreiddio'r system ffôn i'r llwyfan Teams.

**Statws**
Ar waith (i'w gwblhau yn llawn cyn diwedd chwarter 3 2025/26)

## CC3

### Ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor

Mae dyluniad gwefan y Cyngor wedi dyddio ac yn aneffeithiol o ran chwilio a darganfod cynnwys arno, gyda'r dau faes penodol yma'n cael sylw oddi fewn y prosiect. Defnyddir technoleg Deallusrwydd Artiffisial i wella profiad y chwilio a mae'r meddalwedd rheoli cynnwys wedi ei uwchraddio fel bod modd datblygu gwedd y wefan ym mhellach.

**Statws**
Ar waith (i'w gwblhau yn chwarter 3 2025/26)

## CC4

### Datblygu a hyrwyddo apGwynedd

Mae apGwynedd yn ddarpariaeth ar lwyfan Apple ac Android sy'n cyflwyno detholiad o ffwythiannau gwefan y Cyngor ar app syml ac effeithiol. Fe'i cyflwynwyd yn 2018, ac er nad yw wedi ei hyrwyddo'n eang, mae wedi ei lawrlwytho i 20,000 o ddyfeisiadau. Mae angen adolygu'r cynnwys a'i ddiwygio ychydig cyn symud at ymgyrch hyrwyddo a hynny wedi i ddyluniad newydd y wefan (prosiect CC3) a dulliau cyfathrebu/ymgysylltu newydd (prosiect CC1) gael eu sefydlu.

**Statws**
Heb gychwyn (targedu dechrau'r gwaith yn chwarter 2 2026/27)

## CC5

### Ciosg fideo Siop Gwynedd

Daethpwyd i'r gasgliad bod y prosiect yn anymarferol ac yn mynd yn groes i'r pwrpas o gynnal canolfannau ble bo'r cyhoedd yn taro heibio am wasanaeth wyneb yn wyneb. Am y tro, ni fydd y prosiect hwn yn cael ei ddatblygu ym mhellach, ond fe all gael ei ail-gyflwyno yn y dyfodol ar ffurf amgen, megis cyflwyno ciosg yn Siopau Gwynedd ar gyfer cyflwyno gwybodaeth neu wneud taliadau. Ni dderbyniwyd unrhyw gefnogaeth arian ar gyfer datblygu'r prosiect hwn.

**Statws**
Dim am ei gyflawni

## CC6

### Peiriannau talu am wasanaeth

Ymylol oedd y gefnogaeth ar gyfer y prosiect hwn a bydd yr ymdrech ar ei gyfer yn cael ei ddargyfeirio at brosiectau eraill. Ni dderbyniwyd unrhyw gefnogaeth arian ar gyfer datblygu'r prosiect hwn.

**Statws**
Dim am ei gyflawni

# 11. Ysgolion ac Addysg

## Ffocws

Mae maes addysg ddigidol yn cael sylw penodol yn y Cynllun. Mabwysiadodd y Cyngor **Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd** ar ddiwedd 2021, sy'n "**cefnogi addysgu digidol er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i ddisgyblion Gwynedd**". Mae'r Cynllun Digidol corfforaethol yn cyd-fynd â strategaeth yr ysgolion ac yn ceisio cryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt.

### YSG1

### Cefnogi a datblygu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd

Mae'n dair mlynedd ers i Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd gael ei chyflwyno a'r gefnogaeth i'r strategaeth yn mynd o nerth i nerth. Cwblhawyd y weledigaeth o gyflwyno gliniadur i bod disgybl o flwyddyn 3 hyd blwyddyn 11 yn ystod 2024/25 a mae buddsoddiad sylweddol pellach wedi ei wneud i uwchraddio darpariaeth i gefnogi dysgu yn yr ysgolion. Mae'r strategaeth wedi dyddio ychydig ers ei gyflwyno a mae tasg ar waith i'w diwygio yn ystod 2025/26.

**Statws**

Ail ymweld a'r Strategaeth yn ystod 2025/26 a cyflwyno Strategaeth newydd yn 2026/27.

# 12. Crynodeb

Mae Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023–2028 yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid digidol y Cyngor, gan ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth strategol: gwybodaeth a data, gweinyddiaeth a systemau busnes, gweithlu, gwydnwch, a chyswllt cwsmer. Yn ystod cyfnod 2024–2025, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o brosiectau, gyda 20 o'r 29 prosiect blaenoriaeth naill ai wedi'u cwblhau neu'n dangos cynnydd da. Mae'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd llywodraethu cadarn, ymgysylltu traws-adrannol, a blaenoriaethu adnoddau ariannol i sicrhau llwyddiant y cynllun.

Ymhlith y gwersi allweddol mae'r angen i barhau i addasu a blaenoriaethu prosiectau yn unol â newidiadau mewn technoleg a gofynion gwasanaeth, a'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau digidol y gweithlu. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio â phartneriaid, gwella seilwaith digidol, a sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol ac yn ddwyieithog.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor yn ymrwymo i adolygu'r cynllun yn flynyddol, cryfhau trefniadau ymgysylltu, a sicrhau bod y Cynllun Digidol yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol wrth gefnogi trigolion Gwynedd a staff y Cyngor. Bydd y camau nesaf yn cynnwys cwblhau prosiectau sy'n weddill, datblygu strategaethau newydd ar gyfer ysgolion ac addysg, a pharhau i fuddsoddi mewn technoleg a sgiliau i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn arwain y ffordd fel cyngor digidol modern.